


Cenn@d

MEHEFIN 16 2021 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 16

Ffwrtbol a Ffydd

Yn yr erthygl hon, a hynny yn nhyrnwyr cystaldeuaeth pêl-droed yr Ewros, mae Aled Davies yn trafod cysylltiadau'r gêm â'r ffydd Gristnogol.



Erbyn hyn mae'r Ewros wedi dechrau, a bydd sawl gêm bêl-droed i'w gweld ar y teledu'n ddyddiol dros yr wythnosau nesaf. Ac ydi, diolch byth, mae tîm Cymru ynghanol y cyffro, ac ar ddyddiad cyhoeddi'r rhifyn hwn o *Cenn@d* (Mehefin 16) mae Cymru yn herio Twrci am 5.00, a hynny'n dilyn gêm gyfartal, 1-1, yn erbyn y Swistir bnawn Sadwrn diwethaf. I gefnogwyr tîm pêl-droed Cymru, er y siom o orfod gohirio'r Ewros yn 2020 a'r cyfyngu ar y teithio a'r niferoedd mewn stadiwm ar gyfer 2021, mae yna gynnwrf mawr wedi bod wrth ddisgwyl am weld Cymru'n cystadlu ymhlith y 24 tîm sy'n gobeithio codi'r cwpan ymhen y mis. Yn dilyn llwyddiant ysgubol 2016, gwelwyd tîm Cymru yn codi o fewn y rhengoedd, a'r 'wal goch' dorfol bellach yn olygfa gyfarwydd wrth i gynifer o gefnogwyr deithio i ddilyn Cymru dramor. Ond eleni, ar deledu bydd y rhan fwyaf ohonom yn gwyllo'r gemau, boed gartref neu mewn tafarn.

Mae'n debyg fod y byd pêl-droed yn cael ei gysylltu'n glôs erbyn hyn â diwylliant y dafarn a chwrrw, gyda gemau lloeren yr Uwch-gynghrair yn cael eu darlledu oddi yno, a llawer tafarn yn trefnu tripiâu pêl-droed ac efo'u timau pêl-droed eu hunain hyd yn oed. Y bragdai yw prif noddwyr y clybiau pêl-droed, ac maent yn obeithiol am werthiant sylweddol o ddiod dros yr wythnosau nesaf.

Ar un olwg, mae diwylliant y byd pêl-droed yn medru ymddangos yn fyd diarth iawn mewn perthynas â'n ffydd a bywyd yr eglwysi. Yn aml iawn, cwyno am gemau'n cael eu chwarae ar y Sul a wnawn, a phryder am golli plant o'r ysgol Sul oherwydd ymarferiadau pêl-droed ar fore Sul. Ond mewn oes a fu, y capeli ac ysgolion Sul fu'n hyrwyddo pêl-droed, yn fwy na'r tafarndai! Mewn cyfnod lle roedd y 'ddiod gadarn' yn chwalo teuluoedd,

gwelodd yr eglwys gyfle i ymestyn allan at ddyonion drwy sefydlu timau lleol i gystadlu ymhlith ei gilydd.

Mae llawer o'r timau cynnar hynny erbyn hyn yn brif dimau yn yr Uwch-gynghrair. Sefydlwyd clwb Everton gan Eglwys Fethodistaidd St Domingos yn 1879, a Fulham yn 1880, ill dau fel timau oedolion o'r ysgol Sul. Clybiau eraill sydd â'u dechreuadau mewn eglwysi yw Manchester City, a sefydlwyd gan Eglwys Anglicanaidd St Mark's yn y ddinas, Southampton F.C. a Celtic yn yr Alban. Roeddent yn cystadlu yn y brif ffrwd ar y pryd, ac yn cael eu rheoli gan weinidogion a ficeriaid. Adwaenir Southampton fel y Seintiau, ac yn y Drenewydd yr un fath ceir tîm y Seintiau Newydd ar ôl Sant Oswald. Mae cae Goodison Park yn ffinio â'r capel, a byddai cryn deithio rhwng y ddau safle yn y dyddiau cynnar.



Mae yna draddodiad o ganu emynau o'r teras hefyd. Canwyd yr emyn 'Abide with me' am y tro cyntaf yn ffeinal cwpan yr FA rhwng Arsenal a Chaerdydd, ac mae'r traddodiad hwnnw wedi parhau hyd heddiw. Caerdydd, gyda llaw, oedd yn fuddugol y flwyddyn honno, gan guro Arsenal 1-0.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

**O'r byd a'r betws
Croes dros gyfiawnder**

Tudalen 3

**Coffâd - Y Parchedig William Ieuan
Cynwil Williams (1936-2021)**

Tudalen 4

**Dyma gyfarfod hyfryd iawn
Pwy yw hwn?**

Tudalen 8

Ffwftbol a Ffydd

(parhad o dudalen 1)

Mae nifer o chwaraewyr pêl-droed adnabyddus wedi arddel ffydd gadarn hefyd, gan gynnwys enwau fel Lionel Messi, Thierry Henry, David Luiz, David Silva, Raheem Sterling a Daniel Sturridge. Mae Alisson Becker, gôl-geidwad Lerpwl a Brasil (ac ef hefyd oedd gôl-geidwad y Flwyddyn gan FIFA am 2020), wedi bedyddio sawl pêl-droediwr, gan gynnwys Roberto Firmino. Mae rheolwr Lerpwl, Jürgen Klopp, hefyd yn Gristion sy'n siarad yn gyhoeddus am ei ffydd. Meddai mewn cyfweiliad diweddar, 'Nid oes unrhyw beth sy'n bwysicach i mi na fy ffydd. Gwn fod Duw yno bob amser. Dyna pam nad wyf yn poeni am golli fy ffydd; fy ffydd sy'n golygu nad oes gen i reswm i ofni na phoeni am ddim byd.'



Un arall sy'n arddel ffydd gadarn yw da Silva. Mae Willian Borges da Silva, sy'n fwy adnabyddus fel Willian, yn ei

seithfed tymor gyda Chelsea yn Uwch-gyngnhair Lloegr. Dechreuodd ei yrfa yn Brasil, a chafodd gyfnodau'n chwarae yn yr Wcráin a Rwsia, cyn cyrraedd Cheslea. Er iddo gael ei fagu yn yr eglwys Gatholig, yn ystod ei amser yn yr Wcráin y dechreuodd Willian ddeall y Beibl mewn gwirionedd. Tystia iddo dderbyn Crist fel ei Waredwr a chafodd ei fedyddio gyda'i wraig pan oedd yn chwarae i Shakhtar yn Donetsk, Wcráin.

'Mae pobl yn meddwl bod pêl-droedwyr â diddordeb mewn ceir cyflym, tai moethus, partion gwyllt a merched yn unig,' meddai Willian mewn cyfweiliad yn ddiweddar. 'I mi, Duw sy'n dod gyntaf, o flaen popeth arall.' Mae'n rhannu ei ffydd â'i naw miliwn o ddilynwyd ar Instagram, lle mae ei *bio* yn nodi'n glir, 'Rwy'n perthyn i Iesu.'

Er bod unrhyw drafodaeth am ffydd yn arfer bod yn beth prin ym myd pêl-droed, nid yw bellach yn anghyffredin i chwaraewyr fod yn agored ynghylch pa mor bwysig yw eu perthynas â Christ iddynt. Meddai James Morton, chwaraewr canol cae i Bristol City, yn ddiweddar: 'Mae pêl-droed yn rhan enfawr o fy mywyd i, yn union fel mae fy ffydd erbyn hyn. Cefais fy magu mewn teulu Cristnogol, ond tua phum mlynedd yn ôl, fe gymerais gam mawr ymlaen yn fy ffydd, gan wneud profes dros fy hun. Roeddwn i eisiau gwneud hynny oherwydd sylweddolais pwy oedd Duw, a sut mae hynny yn rhoi pwrpas a hunaniaeth i mi. Pe bawn i ddim ond yn dibynnu ar bêl-droed, ni fyddwn yn cael cymaint allan o fywyd.' Mae Morton yn cymryd rhan mewn cyfarfod Zoom wythnosol gyda chwaraewyr eraill ledled y wlad i siarad am bwnc penodol sy'n gysylltiedig â'r Beibl.

Mae ambell bêl-droediwr hefyd wedi gwneud safiad ynghylch chwarae ar y Sul. Yn ystod Cwpan y Byd 1982, gwrthododd chwaraewr Gogledd Iwerddon, Johnny Jameson, chwarae i Ogledd Iwerddon yn erbyn Ffrainc oherwydd bod y gêm ar ddydd Sul.

Chwaraewr enwog yn y 70au oedd Peter Knowles, a fu'n chwarae i Wolverhampton Wanderers a Lloegr. Wedi iddo ymdeol o fyd pêl-droed, aeth Knowles ymlaen i gael ei ordeinio'n weinidog; dyma oedd y symbyliad i gân enwog Billy Bragg, 'God's

Footballer'. Yn yr un ffordd, ar ôl iddo yntau ymdeol, aeth Gavin Peacock, chwaraewr canol cae QPR, ymlaen i gael ei ordeinio. Bellach, mae'n weinidog ar eglwys lwyddiannus yn Calgary, Canada. Bu'r Pab Ioan Pawl II hefyd yn gôl-geidwad reit lwyddiannus yn ystod ei ieuencid yng ngwlad Pwyl.

Diolch am Gristnogion gweithgar ym myd pêl-droed heddiw ac am waith elusennau fel Christians in Sport. Diolch hefyd am y rhai hynny a welodd gyfle, flynyddoedd yn ôl, i ymestyn allan i'r gymuned. Ers blynyddoedd, mae'r Parch Eirian Wyn, Brynman, wedi bod yn gaplan ieuencid i dîm yr Elyrch, ac wedi bod yn cyhoeddi yn Gymraeg dros yr uchelseinydd mewn gemau ar gae'r Liberty. Trwy'r gwaith yma, cafodd nifer o sgysiau dwys ac adeiladol gyda chwaraewyr ar hyd y blynyddoedd.



Bydd llawer cylch lleol yn trefnu twrnameintiau pêl-droed rhwngysgolion Sul a'i gilydd. Ac am flynyddoedd bu twrnamaint cenedlaethol yn cael ei drefnu gan Gyngor yr Ysgolion Sul lle roedd dros 1,500 o blant yn ymgynnull yn flynyddol.

Onid oes her i ni yma i geisio pontio byd ffydd efo'r gymuned ehangach, a pha ffordd well na thrwy gyfrwng pêl-droed yng nghyfnod yr Ewros. Mae'n beryg bod byd y capel a byd y cae pêl-droed wedi ymbellhau dros y degawdau diwethaf. Onid oes cyfle yma i ni fod ynghanol bwrlwm chwaraeon y cyfnod hwn. Bydd ambell eglwys yn dangos gemau ar sgrin fawr, ac yn trefnu digwyddiad fel barbeciw o'i gwmpas. Gyda Sul y Tadau yn digwydd y penwythnos yma, a all digwyddiad pêl-droed fod yn gyfrwng i gael teuluoedd ynghyd?

Pob hwyl i hogiau Cymru, a phob hwyl i ninnau hefyd gyda'n cenhadaeth.



Diwrnod Golff Dydd Llun Medi 13eg 2021 yng Nghlwb Golff Llangollen

Mae diwrnod golff wedi cael ei gynnal ers sawl blwyddyn bellach o dan faner Y *Goleuada* a'r *Treasury*.

Eleni rydym am agor y diwrnod i unrhyw aelod o Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac Undeb y Bedyddwyr, a hefyd unrhyw aelod o enwad arall sy'n cydaddoli gydag eglwysi o'r ddaau enwad uchod.

Does dim angen i chi fod yn aelod o glwb golff na efo handicap swyddogol.



Trefn y Dydd fydd:

Cyfarfod am 11.15 y bore am frechdan cig moch a phaned Rownd o golff 18 twll (tŷ cyntaf am hanner dydd)

Pryd o fwyd dau gwr ar ddiwedd y golff am oddeutu 5 p.m.

Bydd y gost yn ddibynnol ar y nifer sy'n mynychu'r diwrnod ond bydd tua £40

Gadewch i'r trefnydd, Geraint Wyn Jones, wybod mewn da bryd os ydych am chwarae.

E-bost: geraint.w.jones@btinternet.com

Ffôn: 01978 846151 Neges testun i: 07707752901



O'r byd a'r betws

Croes dros gyfiawnder

Ers llacio'r cyfyngiadau Covid, ac agor drysau tai bwyta, tafarndai a manau cymdeithasol eu haniau, bu llawer o ddathlu'r rhyddid cynyddol ymysg trigolion ein broydd. Bu llawer yn dadlau dros agor y drysau yn lletach, a gyda llai o gyfyngiadau cymdeithasol, megis dod â'r gofod pellter rhwng pobl o ddau fetr i lawr i un metr. Dadleuir bod economi'r busnesau hyn, iechyd meddwl pobl yn gyffredinol a llwyddiant y brechlynnau yn caniatáu hyn.


Mae'n hawdd deall y dadleuon, a chydymdeimlo â'r sawl sy'n mynegi'r farn. Ar y llaw arall, bydd y gwyddonwyr meddygol am fod yn fwy gochelgar, gan ddadlau bod nifer o'r haenau ieuengaf yn ein cymdeithas heb dderbyn yr un brechlyn eto, a bod amrywiad Delta o Covid-19 yn fygythiad sy'n hawlio pwyll yn ein plith.

Er mwyn amrywio rhywfaint ar y deunyddiau y bydd y wasg a'r cyfryngau yn eu trafod, bu holi am yr hyn a ddaeth er daioni yn sgil arswyd Covid-19. Nodir y gallai'r sawl sy'n byw ynghanol dinasoedd mwyaf Prydain ddewis symud i'r ardaloedd gwledig a defnyddio mwy ar y cysylltiadau digidol fel Zoom a Teams, gan deithio i mewn i'r swyddfeydd am ddiwrnod yr wythnos o bosibl.

Byddai ailboblogi cefn gwlad yn llesol i'r economïau hynny, a byddai'r ysgolion, y clybiau ieuencid a'r eglwysi ar eu mantais. Dadl bwysig arall yw'r ddadl dros leihau trafniadaeth yn y dinasoedd, gan wella ansawdd yr aer yn y manau hynny.

Prin fod y sefyllfa gyfredol yn fater o ddu a gwyn, a rhaid ymddiried yn ein gwleidyddion a'u hymgyngorwyr. Bu cryn ddadlau hefyd dros ganiatáu i fwy o bobl wylu'r gemau sy'n denu tyrfaoedd. Yr un yw'r pynciau trafod: diogelwch, llwyddiant masnachol a phoeni am iechyd meddwl, ar y naill law, a'r risgiau amlwg ar y llaw arall.

Ynghanol yr adroddiadau yn y wasg ac ar y llwyfannau digidol, prin fu'r sôn am y niferoedd sy'n cael mynychu



oedfaon crefyddol. Nid yw'n ymwneud â masnach nac economi, er nad oes tystiolaeth fod y cyrff crefyddol yn debygol o gamdefnyddio'r rhyddid, fel a fu'n amlwg o weld lluniau o'r traethau dros y pythefnos diwethaf.

Yr hyn a glywir o du'r eglwysi yw ansicrwydd, ofn a dal 'nôl. Bydd pryder am y sawl sydd dros oed yr addewid yn anthem barhaus, ac nad oes pobl addas ar gael i drefnu/rheoli'r cyfarpar digidol. Mae gofalgargwch yn reddf naturiol a bod neb ar gael i helpu i drefnu unrhyw gerddoriaeth ddigidol neu wasanaethau ar Zoom yn dristwch. Ond i ble'r aeth yr awydd am gydaddoli, i gyd-ddathlu cymun, i rannu gobaith yn ein plith?

Aeth llipryndod crefyddol yn glefyd. Mae perygl i'r haint hwn achosi i fwy o eglwysi ddigalonni a chau. Os yw'r adeiladau sy'n fannau ymgynnull i ni yn anghyfleus i gyfarfod o'u mewn, beth am ymgynnull yn y fynwent neu yn y maes parcio, mewn gerddi cyhoeddus neu iard ysgol am hanner awr, a rhannu defosiwn a myfyrdod?

Yr haf sydd o'n blaen a bu clywed tawedogrwydd yr eglwysi'n hysbyseb sâl i fywyd eglwysi. Codwn ein hwyliau a chlodforwn Grist yn gyhoeddus eto.

*Denzil John
Caerdydd*

Coffâd – Y Parchedig William Ieuan Cynwil Williams (1936–2021)

Gyda marwolaeth y Parchedig W I Cynwil Williams mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a'r Gymdeithasfa yn y De yn benodol, wedi colli un o'i harweinwyr mwyaf adnabyddus ac un o bregethwyr mwyaf cymeradwy ei genhedlaeth.

Cynnyrch cefn gwlad siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin ydoedd; fe'i ganwyd ar 14 Gorffennaf 1936 yn Llanfair Clydogau yn nyffryn Teifi. Ond fe'i magwyd ar fferm yng Nghwrtycadno, yn nhiriogaeth Cynwil Gaeo, cymuned sydd i'r gogledd-orllewin o Lanymddyfri ac yn cynnwys pentrefi Cao, Crug-y-bar, Cwrtycadno, Ffarmers a Phumsaint.

Dyma ardal lle y bu Methodistiaeth Galfinaidd y ddeunawfed ganrif yn ddylanwadol drwy emynwyr Cao – pobl fel Dafydd Jones, John a Morgan Dafydd, a deuai'r Pêr Ganiedydd ei hun yn gyson i'r fro i bedoli ei geffyl. Nid rhyfedd i Cynwil Williams ddatblygu'n ddehonglydd meistrolgar o'r Pêr Ganiedydd, fel y clywsom yn ei Ddarlith Davies, 'Pantycelyn ar y bla'n' (Llangeitho, 1985).

Gosododd Gwrtycadno ar fap crefyddol Cymru, a mynegi'n gyson ei ddyled i'w rieni a'i deulu a chapel deniadol Cwrtycadno lle meithrinwyd ef yn y ffydd Gristnogol ac ar gyfer gwaith mawr ei fywyd. Clywodd yr alwad i wasanaethu Crist a chysegrodd ei hun o ddyddiau Ysgol Uwchradd Llanymddyfri, cyn astudio yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, ac yna yn y Coleg Diwinyddol Unedig gan raddio yn BA a BD.

Graddiodd yn y Gymraeg a bu cyfeillgarwch y bardd Gwenallt yn fonws iddo ef ac eraill ohonom. Bu Cynwil yn amlwg ym mywyd cymdeithasol y ddau goleg. Bu'n arweinydd yn y Gymdeithas Geltaidd ac yn aelod o'r tîm siarad cyhoeddus buddugol o blith colegau Cymru. Cipiodd ef a minnau Frysgyll *Y Cymro* mewn cystadleuaeth deledu a drefnwyd gan Sam Jones dros y BBC. Daeth hynny â chyhoeddusrwydd i'r Coleg Diwinyddol a llawenydd i'r myfyrwyr, y Prifathro, a'r darlithwyr.

Braf oedd gwrando arno'n arwain addoliad yng Nghapel y Coleg, a bu galw mawr amdano fel myfyriwr ar y Suliau. Teithiai ar gefn ei foto-beic pwerus, a byddai'n garedig yn cludo rhai ohonom gydag ef i'n cyhoeddiadau. Nid oedd mynd allan o'i ffordd i gyflawni hyn yn boen yn y byd iddo.



Cofiwn yn dda fel y cafodd pedwar ohonom, Cynwil, D Wynford Jones, D Geraint Davies a minnau, ein hordeinio yn Sasiwn Llangeitho yn Nhachwedd 1962. Cymerodd Cynwil Williams gyfrifoldeb am gapel enwog Heol-y-dŵr, Caerfyrddin, a buan yr enillodd ei le ymhlith yr holl weinidogion, o bob enwad, a wasanaethai'r dref.

Ond, ar ôl tair blynedd, cafodd ei ddenu i fod yn olynydd i'r Parchg J H Griffith, gwainidog Capel Mawr, Dinbych, o 1932 hyd 1964. Roedd ei ragflaenydd yn ŵr o argyhoeddiadau cryfion a gadawodd ei ddylanwad yn drwm ar fywyd yr eglwys. Camp ei olynydd oedd iddo lwyddo, drwy ei bregethu goleuedig a'i ymroddiad cydwytodol fel bugail, i ddenu pob adran o'r eglwys i'w gefnogi.

Roedd ganddo ddawn i ddelio â'r ifanc, a pharatodd yn 1968 ar ran yr enwad gyfrol ddifyr, *Cwmni'r Apostolion*, ar gyfer plant 11–14 oed. Ni chafwyd gwell bugail i gysuro'r claf yn yr ysbyty a dwyn gobaith i'r profedigaethus, ac ni chollodd gyfle i ddenu pobl newydd i'w gynulleidfa. Yn ystod ei gyfnod yn Ninbych cymerodd ofal o gapel Seion, a chofiwn yn dda feddwl mawr y gynulleidfa yno ohono.

O'r funud gyntaf y cyfarfu â'r llenor Dr Kate Roberts, bu cyfeillgarwch cywir rhyngddynt, a byddai'n cludo hwn a'r llall oedd ar ymweliad â'r capel i'w gweld yn ei chartref i gael sgwrsio â'r wraig ddawnus, 'Brenhines ein llên'.

Bardd a llenor arall a ddaeth yn gyfaill triw iddo oedd Gwilym R Jones. Ac yn ei sylwadau golygyddol yn y gyfrol *Bro a*

Bywyd: Gwilym R Jones, 1909–1993 dywed: 'Ef a'm perswadiodd i symud o'r De, a bu fel tad i mi, yn fy nghynghori am ddegawd gyfan.'

Bu Cynwil yn gaffaeliad mawr i'w gydweinidogion yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd am ei fod yn ddarlennwr eang ac yn wybodus am ddiwinyddion a diwinyddiaeth.

Symudodd o Ddinbych i Gaerdydd, a dechrau ar Sul cyntaf 1976 pan unwyd Capel Heol y Crwys â Chapel Pembroke Terrace, gan ehangu'n fawr ar ei gyfrifoldebau. Gwelwyd yn fuan fod ei weithgarwch yn dod ag ysbryd newydd i waith cenhadu yn Nwyrain Morgannwg, ac yn 1988 arweiniodd ei ddiadell i adeilad newydd gyda chyfleusterau modern yn Heol Richmond. Llwyddodd i harddu'r cysegr gyda nifer o ffenestri lliw, rhoddedig gan garedigion yr achos.

Dangosodd gryfder ei arweiniad yn ei eglwys, yn y Sasiwn, fel ysgogydd Coleg Trefeca am flynyddoedd, ac fel cadeirydd Adran Crefydd Cyngor Darlledu Cymru. Etholwyd ef yn Llywydd Cymdeithasfa'r De (1996–7) ac yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol (1998–9), a chyflawnodd ei holl ddyletswyddau ag urddas ac ysbryd cymodlon. Teithiodd i gymanfaoedd enwadau eraill fel llysgennad i'w enwad ei hun, gan adael argraff ar yr enwadau hynny o'i ymweliad grasol.

Yn 2001 ymddeolodd o fod yn weinidog un o gapeli cryfaf Sasiwn y De, a threuliodd ei ymddeoliad yn diwinydda, yn pregethu ledled Cymru ac yn paratoi cyfrol i'w gyfaill, yr Archesgob Rowan Williams, a ymddangosodd yn 2006. Cafodd y gyfrol adolygiadau'n canmol y modd y cyflwynodd ddarlun o ddyfnio, galluog a dylanwadol.

Derbyniodd gysur mawr yn ei gartref gan ei briod, Carol, a'i ferched, Catrin, Siriol a Lisa, a bu i'r tair ohonynt ddilyn eu tad i lwybrau diwinyddiaeth, ysbytai ac addysg. Cydymdeimlwn yn ddwys â hwy.

Dirywiodd iechyd ein cyfaill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a bu'n rhaid iddo roi'r gorau i bregethu, ac yntau'n dibynnu ar ei deulu ac eraill. Daeth yr alwad olaf iddo mewn cartref yn y Rhyl fore Sadwrn, 1 Mai 2021. Bu'r arwyl yng Nghwrtycadno, yn ôl ei ddymuniad.

Collwyd un o ragorolion ein henwad a bydd bwllch enfawr ar ei ôl.

*Y Parchg Ddr D Ben Rees
Lerpwl*



Y Silff Lyfrau



Groeg, Rhufain – a Llanrwst: Dyffryn Conwy a'r Clasuron

Mae enw'r Athro Ceri Davies yn un cyfarwydd i ddarllenwyr y papur hwn. Dros y blynyddoedd bu'n gohebu newyddion diddorol o glych Abertawe yn *Y Goleuad* yn ogystal â chyfrannu erthyglau mwy swmpus ar Dr John Davies, Mallwyd, ac eraill o gyfieithwyr y Beibl Cymraeg ar ei dudalennau ac yn *Y Traethodydd* a'r *Cylchgrawn Hanes*.



Llun o wefan Eglwys Bresbyteriaid Cymru

Ef bellach yw ein pennaf awdurdod ar Dr John Davies a hefyd ar gysylltiadau'r ieithoedd clasurol, Lladin a Groeg, â llenyddiaeth Cymru. Yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy ddwy flynedd yn ôl traddododd Ddarlith yr Adran Glasurol ar bwnc sy'n rhychwantu'r canrifoedd: *Groeg, Rhufain – a Llanrwst: Dyffryn Conwy a'r Clasuron*. Fe'i cyhoeddwyd yn ddiweddar gan Wasg Carreg Gwalch am £3.

Mae dyled Cymru i'r fro hon o ran ei diwylliant a'i chrefydd yn sylweddol iawn.

Brodor o Lansannan a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llanrwst oedd William Salesbury, arloeswr y broses o gyfieithu'r Ysgrythurau i'r Gymraeg. Meddai ef feistrolaeth ar y tair iaith anhepgor ar gyfer y gwaith, sef Hebraeg a Groeg y testunau gwreiddiol ynghyd â Lladin, iaith y Fwlgat a'r unig allwedd hyd hynny at yr Ysgrythurau i'r rhan fwyaf.

Fel y mae'r darlithydd yn ein hatgoffa, ni ellir gorbriso cyfraniad Salesbury i'n crefydd a'n diwylliant, a dyna sy'n gwneud ymddangosiad ei gyfieithiad o'r Testament Newydd yn 1567 'yn un o'r digwyddiadau tyngedfennol yn ein stori fel Cymry'. Cyfrannodd tri arall o'r dyffryn

at y gwaith o ledaenu'r Gair yn ein hiaith yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ganrif ddilynol. Cydlafurwr â Salesbury oedd yr Esgob Richard Davies o'r Gyffin, Conwy, ac yna fe gawn yr Esgob William Morgan ei hun. A chofiw'n hefyd am Edmwnd Prys, cyfieithydd y Salmu Cân y dathlwn eu cyhoeddi union bedwar can mlynedd yn ôl i leni. Ceir tystiolaeth bellach mai brodor o Lanrwst oedd ef.

Yn ogystal, rhydd y darlithydd enghreifftiau o feistrolaeth Salesbury a Morgan ar lenyddiaeth seciwlar yn yr ieithoedd clasurol, Groeg a Lladin.


Meithrinwyd y traddodiad clasurol yn yr Ysgol Rad a sefydlwyd yn Llanrwst yn 1610 gan Syr John Wynn o Wydir, er, bid siŵr, mai Seisnig oedd ei hosgo. Parodd hyn iddi ymddieithrio oddi wrth y diwylliant Cymraeg a adawodd y gwŷr mawr a enwyd uchod yn waddol yn y dyffryn.

Erbyn diwedd oes Fictoria daeth yr ysgol hon yn un o'r Ysgolion Sir a sefydlwyd yng Nghymru. Daeth Henry Parry Jones yn brifathro arni yn 1920 nes iddo ymdeol yn 1946. Yn 1899 roedd yntau a W. J. Gruffydd wedi gadael Ysgol Sir Caernarfon ar ôl ennill ysgoloriaethau i astudio yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Gosodwyd Parry Jones yn y dosbarth cyntaf yn rhan gyntaf y radd yn y Clasuron a adnabyddir wrth yr enw 'Mods' ac yn yr ail ddsbarth yn yr ail ran, a elwir yn 'Greats'.

Neilltuir adran olaf y ddarlith i arddangos enghreifftiau o gyfieithiadau cywain Henry Parry Jones o Roeg a Lladin i'r Gymraeg. Ei gampwaith oedd ei drosiad o ddrama fawr Ewripides, *Alcestis*, sy'n waith o dros fil o linellau ar fydr. Yna, ymdrinnir yn fanwl ac yn ddiddorol iawn â dau gynnig ganddo i droi cerdd ddeunaw llinell am y ceiliog rhedyn gan fardd Groegaidd anhysbys o'r chweched ganrif cyn Crist. Mae'r fersiwn cyntaf ar ffurf cywydd a'r ail yn null penillion telyn. Dyna ddangos meistrolaeth y cyfieithydd ar y mesurau Cymraeg hefyd.

Ysgogodd darllen y ddarlith gyfoethog a hynod ddiddorol hon fi i droi at gyfieithiad Parry Jones o ddau o Epistolau'r Testament Newydd, Llythyr Paul at y Philipiaid ac Epistol Cyntaf Pedr, a gyfrifir yr un gorau o ran arddull ei Roeg yn y Testament Newydd. Fe'i

GROEG, RHUFAIN – A LLANRWST: DYFFRYN CONWY A'R CLASURON



cyhoeddwyd dan nawdd Henaduriaeth Dyffryn Conwy.

Cyn diwedd, carwn dynnu sylw at un neu ddau o faterion a gyfyd o'i gyfieithiad ef.

Y gair 'goruchwylwyr' a ddewisodd fel trosiad o'r gair Groeg *episcopoi* yn Philipiaid 1:1. 'Esgobion' a geir ym Meibl 1620 a hefyd yn argraffiadau *Y Beibl Cymraeg Newydd* o'r Testament Newydd a ymddangosodd yn 1975 a 1988. Erbyn argraffiad diwygiedig 2004 cafwyd 'arolygwyr'. Mae'r enw'n digwydd hefyd yn 1 Pedr 2:25, lle y'i cyfieithwyd ym Meibl 1620 gyda'r gair 'esgob' yn y disgrifiad o Iesu fel 'Bugail ac Esgob eich eneidiau'. 'Gwarchodwr' yw trosiad y BCN ym mhob argraffiad, a thebyg yw cynnig Parry Jones, sef 'Gwarcheidwad'.

Ar ddechrau'r hyn a gydnabyddir sy'n emyn i Grist yn Philipiaid 2, dywedir bod Crist 'ar ffurf Duw' (adn 6). Yn BCN (1988) ychwanegwyd y gair 'erioed', nad yw'n rhan o'r testun gwreiddiol, at y cyfieithiad. Adlewyrcha hyn ddylanwad ystyr Groeg clasurol y rhangymeriad a gynrychiolir yma gan 'bod', a dyna a geir yng nghyfieithiad Parry Jones: 'Yr oedd Efe er erioed yn ffurf Duw'. Newidiwyd trosiad y BCN erbyn 2004 i 'Er ei fod ef ar ffurf Duw'. Diddorol yw sylwi y cafwyd yr un newidiad yn achos y *New English Bible* (1970), a oedd yn ôl ei gyfaddefiad ei hun yn ddylanwad ar gyfieithiad Parry Jones, o 'For the divine nature was his from the first' i'r fersiwn mwy llythrennol 'He was in the form of God' sydd yn y *Revised English Bible* (1989).

John Tudno Williams
Capel Seion

ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

YR EGLWYS FORE

Cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Cymeriadau'r Testament Newydd

50 – Philemon ac Onesimus: meistr a gwas, ond brodyr yn y ffydd

Gweddi

Arglwydd, gwyddost fel y byddwn yn dychmygu'n aml am ein swyddogaeth yn y byd. Mae perygl i ni freuddwydio ein bod yn gryf pan ydym yn wan, yn ddyllanwadol pan nad oes neb yn cymryd sylw ohonom. Gallwn hefyd ddyheu am beidio â chario cyfrifoldebau a chilio i gefndir ein llwyfan. Wrth fyfyrio heddiw ar hanes y meistr a'r gwas, helpa ni i adnabod ein hunain a gweld ein stori fel un sydd i adrodd dy neges di. Amen.

Darlleniad

Llythyr Paul at Philemon (un bennod sydd)

Cyflwyniad

Y llythyr at Philemon yw'r un byrraf yn y Testament Newydd, ac mae mor wahanol ei natur i unrhyw lythyr arall. Llythyr cyfaill at gyfaill yw, er y ceir cyfarchiad hefyd at deulu Philemon a'r eglwys yn Colosia. Roedd Onesimus, caethwas i Philemon, wedi dianc o dŷ ei feistr, ac wedi dod o hyd i Paul yn Rhufain. Yno, bu'n gymorth mawr i'r apostol, ond roedd Onesimus yn agored i'w gondemnio i farwolaeth am iddo ddianc. Cymerodd dipyn o fentergarwch i'r gwas deithio mor bell, ond llawer mwy o ddewrder i ddychwelyd i Colosia, i gludo gohebiaeth Paul a'r llythyr at Philemon yn benodol. Yn rhyfedd, ni wnaeth Paul gondemnio caethwasiaeth yn ei ohebiaethau, ond roedd yr eglwys wedi derbyn fod perthynas seciwlar meistr a gwas wedi ei rhoi o'r neilltu yn eu perthynas eglwysig o fod yn frodyr i'w gilydd.

Byddwn yn gyfarwydd ag ystyr enw Philemon, sef 'cariad brawdol' – y cyfaill da, tra mae enw Onesimus yn golygu 'buddiol'. Roedd llawer o barch i Philemon yn Colosia, ac mae'n siwr y byddai ef yn un o arweinwyr y gynulleidfa Gristnogol yno. Byddai'r modd yr ymatebai i'r cais gan Paul yn gosod esiampl bwysig, nid yn unig yn Colosia, ond yn nhrefi eraill y dalaith. Byddai nifer o eglwysi lleol yn rhannu copiau o ohebiaethau Paul a'r apostolion eraill. Roedd y modd y byddai Cristnogion yn trin y caethweision yn eu plith yn enghraifft o'r hyn a alwai Paul yn ddinasyddiaeth Gristnogol.

Myfyrdod

Un o heriau mawr bywyd yw'r modd y bydd pobl yn trin ei gilydd. Mae'r byd yn llawn drygioni yn ei dwyll, ei barodrwydd i fod yn dreisgar a'i ddihidrwydd at ing a dioddefaint pobl eraill. Yn Rhufeiniad 12, geilw Paul ar ddinasyddion yr eglwys i drechu drygioni gyda daioni. Beth yw dinasyddiaeth dda? Sut mae ymarfer trugaredd mewn byd sy'n byw wrth egwyddor barn a chosb, ac yn cyhoeddi bod y sawl sy'n trechu yn llywodraethu, beth bynnag yw amgylchiadau'r sawl sy'n wan ac yn ddiameddiffyn.

Mae'n amhosibl dyfalu faint o bobl yn ein byd sydd heddiw yn gaethweision, heb fodd o sicrhau hawliau sifil mwyaf sylfaenol cymdeithas. Mae yna dystiolaeth fod yna bobl sy'n gaethweision yn y fasnach ryw ym mhob dinas, gan gynnwys Caerdydd, ac ni wyddom fawr ddim amdanynt. Bydd perthynas pennaeth sefydliad â'r sawl sy'n gweithio iddo yn arwyddocaol, ac oni bai fod y cyflogwr a'r cyflogedig yn parchu ei gilydd ac yn cydweithio'n

deg, prin y bydd unrhyw sail i gynnal gwareiddiad iach.

Gan fod caethwasiaeth yn drefn gymdeithasol gyffredin bryd hwnnw, roedd anogaeth Paul i'w gyfaill Philemon mewn diwylliant gwahanol dros ugain canrif yn ôl yn heriol. Gwyddai'r caethwas fod yn rhaid iddo ufuddhau neu ddiodeff cosb enbyd. Roedd hyn yn herio trefn yr Ymerodraeth Rufeinig, ac mae perthynas Philemon ac Onesimus yn parhau i'n herio heddiw! 'A theulu i'w gilydd fo pobl ein byd'.

Gweddi

Arswydwn, Arglwydd, at ddifrawder a chasineb pobl at ei gilydd, boed yn breifat neu'n gyhoeddus. Cywilyddiwn at y modd sarhaus y bydd rhai yn trin eraill, a gweddiwn am hyder i godi llais dros y gwan yn ein bro a'n byd. Eiriolwn dros gaethweision ledled byd ac erfyniwn am faddeuant am ein diffyg asgwrn cefn. Amen.

Trafod ac ymateb

- Dychmygwch sut dderbyniad gafodd Onesimus yn yr eglwys yn Colosia ac ar aelwyd Philemon. Sut ymateb fydddech chi wedi ei roi iddo?
- A oes pobl o wahanol haenau cymdeithasol yn aelodau yn ein heglwys? Os nad oes, pam?
- Sut y cafodd y llythyr personol yma gan Paul at Philemon ei le yn y casgliad, tybed? Beth sy'n gwneud llythyr yn werth ei gadw?
- Beth am ysgrifennu llythyr at rywun sydd heb allu ymuno mewn gwasanaeth o addoliad yn ddiweddar er mwyn codi eu calon?

S4C

Nos Sul, 20 Mehefin – *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*, am 7:00yh

Yr wythnos yma, bydd Lisa yn ein tywys drwy rai o uchafbwyntiau'r gyfres bresennol o *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*. Fe gawn ni gyfle i fwynhau rhai o straeon y gyfres eto a chydganu rhai o'n hoff emynau.

Dyma ddolen i gopi o gylchlythyr *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* ar gyfer mis Mehefin – <https://spark.adobe.com/page/wMTkooGnyNCZG/>

BBC radio cymru

Sul, 20 Mehefin – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp
R Alun Evans sy'n cyflwyno cyfres yn trafod themâu gwahanol yn ein hemynau. 'Goleuni' fydd dan sylw yn y rhaglen hon.

Sul, 20 Mehefin – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp
yng ngofal Dafydd Iwan, Caeathro

Ond beth yw hanes y plant erbyn hyn? – Rhan 2

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn cynnig nifer o syniadau ymarferol ar sut i fynd ati i gynllunio ar gyfer y cyfnod newydd hwn. Does gan dros 95% o blant Cymru bellach ddim cysylltiad â'r ffydd Gristnogol, ac mae effaith pandemig Covid-19 ar waith plant ac ieuencid mewn ysgolion Sul, clybiau plant a gwasanaethau teulu wedi dwysáu'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy fyth.

Meithrin a chadw cysylltiad â'r plant a'u teuluoedd

Tystiolaeth sawl teulu yw nad ydyn nhw wedi clywed dim gan eu heglwys / eu hysgol Sul ers dros flwyddyn. Ers cyhoeddi na fyddai ysgol Sul dros y cyfnod clo, fe aeth popeth yn ddistaw. Er bod cyfarfod efo grwpiau o blant wyneb yn wyneb yn anodd, yn enwedig os ydynt o ysgolion gwahanol, dydi hynny ddim yn rheswm dros anghofio amdanynt.

Wrth i dymor a blwyddyn yr ysgol Sul ddirwyn i ben ddiwedd y mis, beth am gysylltu â phob teulu sy'n rhan o fywyd yr eglwys gyda rhodd o lyfr neu gomic? Mae digon o lyfrau posau a sticeri deniadol ar gael am brisiau rhesymol iawn. Byddai hyd yn oed yn bosib cyflwyno Beibl lliw i bob teulu fel rhodd, gan annog rhieni i ddarllen a thrafod y cynnwys gyda'u plant. Mae gan Gyngor yr Ysgolion Sul lu o adnoddau – o 50c i £10 y pen. Paratowyd pecyn 'Ffydd yn y Cartref' hefyd; mae'n dod mewn amlen yn barod i'w bostio, ac ynddo ceir cylchgrawn lliwgar, sticeri, cardiau post a marc llyfr. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.ysgolsul.com.

Mae criw Saint y Gymuned, a chriw Cymuned Bach a Chyngor yr Ysgolion Sul wedi bod yn paratoi pecynnau gwersi a syniadau wythnosol, sy'n hawdd iawn i'w e-bostio'n wythnosol i rieni. Eto, ceir hyd i'r rhain i gyd ar wefan ysgolsul.com. Mae'n bosib gosod heriau i'r plant i gyflawni tasgau, gan eu hannog i yrru lluniau atoch y gellid eu rhannu ar dudalen Facebook yr ofalaeth – her i wneud gwaith crefft neu her i gyflawni tasg. Os oes 'na blant Blwyddyn 6 yn rhan o'ch eglwys, beth

am gyflwyno copi o *Y Cam Nesa* iddynt? Adnodd arbennig gan Scripture Union ydi hwn, i'w paratoi ar gyfer dechrau yn yr ysgol uwchradd. Gall fod yn gyfle hefyd i gyflwyno copi o *beibl.net* i bobl ifanc iddynt ar ddechrau'r bennod newydd hon yn eu hanes.



Trefnu digwyddiad pen tymor

Erbyn hyn mae'n haws trefnu digwyddiad yn yr awyr agored i griw o hyd at 30 o bobl. Beth am fynd ati i drefnu barbeciw ar y traeth, picnic teuluol mewn parc, campau mewn cae, gemau mewn gardd? Bydd yn gyfle i'r plant a'r rhieni ailgysylltu a chael cyfle i drafod a sgwrsio. Mae'n debyg na fydd triapiau ysgol Sul yn ymarferol eleni, felly beth am drefnu rhywbeth lleol? Ymweliad ag atyniad lleol neu bryd o fwyd mewn canolfan lle ceir atyniadau chwarae? Ond cofiwch ddilyn y canllawiau diweddaraf a chydymffurfio â gofynion y gyfraith.

Dechrau cynllunio ar gyfer mis Medi

Er mwyn gallu ailgydio, mae cael cynllun pwrpasol yn allweddol. Beth am alw pawb sy'n rhan o'r ddarpariaeth – yn weinidogion ac arweinwyr, rhieni a phlant – at ei gilydd dros Zoom i drafod pa fath o ddarpariaeth, pa mor rheolaidd a pha gyfrwng? Efallai fod model o ysgol Sul wyneb yn wyneb bob yn ail â chyfarfod rhithiol, teuluol yn un ffordd ymlaen? Sut mae modd cau'r gagedor rhwng bywyd yr eglwys a'r ysgol Sul? Sut mae creu cynulleidfa o bobl o bob oed sy'n dysgu am Iesu ac yn cyfarfod i'w addoli yn ogystal?

Buddsoddi mewn technoleg

Erbyn hyn mae llu o adnoddau ar gael ar y we: cannoedd o ffilmiau Beiblaidd yn Gymraeg a Saesneg, caneuon Cristnogol i'w canu gyda'r geiriau ar y sgrin, sgysysau ieuencid, cyflwyniadau crefft, a llawer iawn mwy. Byddai cael

cyfrifiadur yn y festri a chysylltiad â'r we yn fantais fawr i'r ysgol Sul erbyn hyn. Mae modd cael cyfrifiadur sgrin 27" am oddeutu £400 ar y we erbyn hyn, a chysylltiad â'r we am flwyddyn am £300. Onid yw hyn yn fuddsoddiad gwerth chweil i gefnogi gwaith yr ysgol Sul, heb sôn am ei ddefnydd fel adnodd ym mywyd yr eglwys? Bellach, dydi taflen liwio a chwilaer ddim yn mynd i gadw sylw'r plant am amser hir, a rhaid gwneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi gwaith yr ysgol Sul.

Hyfforddi arweinwyr

Beth yw pwrpas cynnal ysgol Sul neu glwb plant Cristnogol? Ai adloniant, ai ffordd o ddi-dori'r plant am awr bob wythnos, ai cyflwyno storïau Beiblaidd amrywiol, ynteu oes mwy iddi na hynny? A ydym yn deall pwysigrwydd y rôl o greu disgyblion a dilynwyr i Iesu Grist fel ein galwad a'n blaenoriaeth? A ydym yn gweld pwysigrwydd cyflwyno cwricwlwm Beiblaidd cynhwysfawr sy'n dangos llaw Duw a gweinidogaeth Iesu ar fywydau pob un ohonom? A ydym yn llwyddo i fodlu yn ein bywydau ni yr hyn rydym yn ei rannu â'n plant? Mae cyrsiau fel *Dal d'afal* yn ein helpu i weld o'r newydd bwysigrwydd y gwaith rydym wedi ein galw i fod yn rhan ohono, a'r angen i wneud hynny ag egni ac argyhoeddiad.

Oes 'na ddyfodol i waith plant yng Nghymru? Oes, heb unrhyw amheuaeth! Os nad ydym yn credu hynny, bydd yr eglwys wedi diflannu o'n tir o fewn y 25 mlynedd nesaf. Nid ein gwaith ni yw hyn, ond gwaith Duw. Dyna pam mae'r gwaith yn sicr o lwyddo yn y pen draw. Er ein methiannau ni, mae Duw ar waith, ac yn sicr o lwyddo.

Ond mae yna alwad o'r newydd arnom ninnau, yn weinidogion ac arweinwyr, yn rhieni, teidiau a neiniau, rhieni bedydd, a ffrindiau Iesu, i weld a sylweddoli o'r newydd yr angen enfawr i wneud hyn yn flaenoriaeth o fewn ein gweinidogaeth. Mae'n bosib nad yw'r plant wedi cael chwarae teg gennym dros y 15 mis a aeth heibio – gadewch i ni eu gwneud yn flaenoriaeth am y 15 mis nesaf. Ymrown o'r newydd i adeiladu eglwys y mae lle ynddynt i bobl o bob oed, a phob oed yn dysgu ac yn addoli gyda'i gilydd.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Pwy yw hwn?

Emyn 167 – ‘Ar fôr tymhestlog’

Darlenniad 1
Salm 107, 1–2, 23–33

Gweddi

Dduw Dad, yr hwn a anfoneist dy Fab Iesu Grist i'n byd i fod yn athro, yn arweinydd, yn geidwad ac yn Arglwydd, caniatâ i ninnau heddiw 'weld o'r newydd mai ti, Arglwydd, yw ein rhan'. Gofynnwn am dywalltiad o'th Ysbryd Glân arnom ni, ac ar dy eglwys, dros Gymru, a thros y byd. A hynny er gogoniant i'th enw dy hun. Amen.

Darlenniad 2

Marc 4:35–41 – Gostegu'r Storm ar y Môr

Myfyrdod

Dameg ar daith

Os bwriwn drem yn ôl dros ein myfyrdodau diweddar, byddwn yn sylwi bod Iesu Grist yn cyflwyno gwybodaeth am deyrnasiad Duw i'w wrandawyr (1:15). Roedd ei ddisgyblion wedi gweld bod teulu Iesu'n poeni am ei iechyd meddwl (3:21) a bod ei elynion yn ei gyhuddo o fod yn was i Beelsebul (3:22). Ond mynnai Iesu mai'r Ysbryd Glân oedd tarddle ei allu ef ac mai pechod tragwydd oedd methu adnabod, na chydabod, hynny. Byddai teyrnasiad Duw'n cynyddu er gwaethaf diffurthydder ymddangosiadol cymaint o'r tir yr heuwyd y gair ynddo. Efallai mai hedyn dinod fel yr 'hedyn mwstard' oedd dechreuadau'r Deyrnas ond byddai ei chynnydd yn ddiatal, yn llenwi'r holl fydd.

Y tro hwn cawn sylu ar ddameg weladwy. Gadewch i ni nodi:

Y storm a'i harswyd

Os edrychwn yn ofalus ar ddisgrifiad Marc, canfyddwn pa mor arswydus oedd y storm gythryblus hon. Disgrifia 'dymestl fawr', tonnau'n 'ymdaflu i'r cwch' a'r cwch ei hun mewn peryg, gan ei fod yn llenwi â dŵr. Gwyddom fod y môr mawr a'i derfysg, ym meddwl Iddewig y cyfnod, yn cynrychioli'r hyn oedd yn beryglus, yn ansefydlog, yn annibynadwy. Wedi'r cyfan, roedd y môr mawr, cythryblus yn gartref i angenfilod, i'r Lefiathan a'i allu ffyrnig.

A dyma anghenfil o storm yn eu taro nes bod hyd yn oed pysgotwyr profiadol Llyn Galilea'n ofni 'ei bod ar ben arnom'.

Ffydd a gorffwys

Er bod y cwch yn suddo, ni chynhyrfwyd Iesu o gwbl. Roedd yn cysgu ar glustog

yn starn y cwch. Er y terfysg, roedd Iesu fel pe bai'n ymgorffori'r sicrwydd tawel a fynegwyd yn Salm 27:3. Neu yng ngeiriau Salmau Càn Edmwnd Prys:

Ni ddôi ofn ar fy nghalon gu,
pe cyrchai llu i'm herbyn,
neu pe codai gad y modd hwn,
mi ni wanffyddiwn ronyn.

Hadau ffydd

Mae'n anodd dirnad beth oedd yn cynhyrfu'r disgyblion fwyaf. Ai'r tonnau cynddeiriog a'u perygl? Ai bod Iesu cysgu'n dawl a hwythau yng nghanol eu harswyd? Neu a oeddynt yn ddi am fod eu hathro'n ymddangos yn ddi-hid?

Ond beth oedd yr egin ffydd a barodd iddynt ddisgwyl y byddai eu hathro'n medru gwneud unrhyw beth yng nghanol y storm a ruai o'u cwmpas?

Mae yna bobl alluog, pobl ddeallus a dawnus bob un, y medrwn yn rhwydd iawn elwa ar eu dysgeidiaeth. Ond fyddwn ni ddim yn disgwyl iddynt fedru cyflawni unrhyw beth wyneb yn wyneb â chorwynt!

Er eu haneglurder ynghylch beth yn union yr oeddynt yn disgwyl i Iesu ei wneud, 'Deffroesant ef' ac ni adawsant lonydd iddo nes iddo'u clywed a deffro.

Gobaith ffydd

Ergwaethaf eu dychryn, roedd y disgyblion wedi dysgu cymaint â hyn: nad yw ffydd y Cristion gwannaf yn tarddu o'i alluoedd, ei ddoniau, ei wybodaeth na'i gyfiawnder ei hun, ond o fawredd trugarog Iesu Grist.

Wrth iddo ddeffro, ceryddodd y gwynt a'r môr gan orchymyn i ddistawrwydd a thawelwch mawr eu herlid. Mae adnabod llais Iesu'n tawelu stormydd ein hoes, yn maddau bai, yn llefaru geiriau grasol, sydd, 'fel y gwin, oll yn dwyn i mewn dangnefedd ag sydd o anfeidrol rin'.

Tangnefedd yw plentyn yn cysgu ar fron ei fam. Tangnefedd yw absenoldeb terfysg. Tangnefedd yw heddwch cyflawn. Priod annwyl gobaith yw llawenydd. Cariad ddaeth â'r dda ynghyd. Ac o'r briodas hon y daeth plentyn 'tangnefedd' i gartrefu yn ein calonnau.

Nawr, yn lle'r dychryn oherwydd y storm cydiodd ofn arall ynddynt. Peidiodd Iesu

â bod yn athro i ddysgu ganddo, i alw arno, nac yn gysgwyr tawel i'w ddeffro. Ymddangosai fel pe bai dyhead Salm 107 yn cael ei wireddu o'u blaenau.

Ofn dirfawr

Os oedd y storm wedi eu dychryn a'r tawelwch wedi eu synnu, yn awr roedd ceisio ateb y cwestiwn 'Pwy yw hwn?' yn creu arswyd ynddynt.

Yn Daniel 7 cawn weledigaeth ryfedd o'r môr yn berwi a bwystfilod hyll, treisgar a balch yn codi ohono i herio awdurdod ac arglwyddiaeth Duw. Er eu grym, gan yr 'Hen Ddihenydd' a chan 'Fab y Dyn' y mae'r gair diwethaf. Mab y Dyn yw'r un sy'n difa'r drwg (er iddo barhau â'i ymffrost am ei allu am dymor a thymor). Ond nid oes amheuaeth am eiliad nad gan Fab y Dyn y mae'r gair olaf (7:14). Wyneb yn wyneb â stormydd ein bywydau, ofnau ein calonnau, terfysg ein hoes, a thrugaredd grasol yr Arglwydd Iesu, daw'r cwestiwn, 'Pwy yw hwn?' i'n herio.

A phob tro y taflwn ein hamheuon neu ein cwestiynau ato, cynhyrfir ein calonnau gan ei gwestiynu syml ef: 'Pam y mae arnoch ofn? Sut yr ydych heb ffydd o hyd?'

Gweddi

Waredwr tirion a cheidwad ein bywyd, fe yddost ti am ofnau a chythrwfl, anghrediniaeth a dallineb ysbyrdol ein calonnau. Caniatâ i ninnau, yng nghanol terfysgoedd a stormydd bywyd, gredu dy fod gyda ni ar gwch ein taith ddaearol. Cawsom ein galw i dy ganlyn, nid yn unig mewn hafddydd diogel ond hefyd pan fo stormydd yn rhuo ac yn bygwth llong ein ffydd.

Gweddiwn dros gyfeillion sy'n wynebu stormydd heddiw; gweddiwn dros y rhai sydd, efallai, yn amau dy fod wedi eu gadael, neu dy fod yng nghwsg, neu'n ddi-hid ohonynt. Dysga ni heddiw sut i alw arnat, fel y byddwn mewn gorfoledd neu pan wynebwn stormydd yn dy ganfod, yn dy adnabod di, go iawn. Ac ym mhob corwynt ac ystorm caniatâ i ninnau adnabod dy lais yn tawelu ein hofnau ac yn ein cyfarch drachefn. Gofynnwn hyn drwy nerth dy Ysbryd Glân, drwy Iesu Grist, er gogoniant i'r Tad, yn oes oesoedd. Amen.

Emyn 377 – ‘Pwy yw hwn?’

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)